# Abladiad endosgopig ar gyfer sinws blewog

17 Ebrill 2019

Mae'r driniaeth hon yn gweithio'n dda ar gyfer sinws blewog ac nid oes unrhyw bryderon difrifol ynglŷn â pha mor ddiogel ydyw.

Ceudod bach o dan y croen rhwng y ffolennau, fymryn uwchben yr anws, yw sinws blewog. Bydd yn cynnwys blew gan amlaf. Gall achosi poen a gollwng gwaed neu grawn. Yn ystod y driniaeth hon, caiff endosgop (tiwb hyblyg tenau gyda chamera ar y pen) ei roi i mewn i'r sinws. Caiff blew a meinwe wedi'u heintio eu tynnu a chaiff y sinws ei lanhau. Caiff electrode ei basio drwy'r endosgop er mwyn darparu gwres a fydd yn selio y tu mewn i'r sinws. Y nod yw glanhau'r sinws ac annog y broses o wella.

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

## *Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt*

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-3362-4



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.